
**Rhif 5.4**

**Rhif y Cais / Application Number : C15/1199/16/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C15/1199/16/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 26/11/2015 |
| Math y Cais*:* | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned*:* | Llandygai |
| Ward: | Tregarth a Mynydd Llandygai |
| Bwriad: | GOSOD WEIRS SIP NEWYDD GER Y WEIRENNAU SIP PRESENNOL YNGHYD A GOSOD CYFARPAR CYSYLLTIEDIG Â LLWYFANNAU I WEDDU'R PRESENNOL, CODI BWND ACWSTIG 4.5 MEDR, AIL LEOLI LLWYFANNAU PRESENNOL A CYSGODFAN, NEWID LEFELAU, AIL LEOLI LLWYBRAU PRESENNOL A CHODI ADEILAD CYSGODI NEWYDD |
| Lleoliad: | CHWAREL PENRHYN QUARRY, BETHESDA, BANGOR, GWYNEDD, LL574YG |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o’r Argymhelliad:** | DIRPRWYO’R HAWL I GANIATÁU YN DDAROSTYNGEDIG I DDERBYN SYLWADAU GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD. |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer gosod gwifrau *zip* newydd ger y gwifrau *zip* presennol ynghyd a gosod cyfarpar cysylltiedig â llwyfannau i weddu gyda’r rhai presennol, codi bwnd acwstig 4.5m – 5m o uchder, ail leoli llwyfannau presennol a chysgodfan, newid lefelau, ail leoli llwybrau presennol a chodi adeilad cysgodi newydd.

1.2 Mae’r safle wedi ei leoli o fewn ffiniau Chwarel Penrhyn ar gyrion Bethesda, gan ddefnyddio’r un fynedfa i’r Chwarel ag sydd yn bresennol. Mae menter *Zip World* eisoes wedi ei sefydlu o fewn ffiniau’r Chwarel gan gynnwys dau gwrs gwifren *zip* ynghyd ag adeiladau cysylltiol parhaol a fan bwyd, toiledau portacabin a 4 cynhwysydd/portacabin ychwanegol dros dro, ardal gwylio a mannau parcio. Mae caniatâd cynllunio hefyd yn bodoli i godi adeilad ymwelwr pwrpasol ar y safle.

1.3 Mae’r dogfennau canlynol wedi eu cyflwyno fel rhan o’r cais:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Arolwg ecolegol
- Asesiad sŵn
- Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol.

1.4 Mae barn sgrinio wedi ei gwblhau ar gyfer y datblygiad sy’n cadarnhau nad oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer y bwriad diweddaraf hwn.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU
Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B14 - GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Gwarchod cymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri drwy wahardd cynigion sy'n ymwthio'n weledol a/neu sydd wedi eu lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH36 - CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT
Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

POLISI D8 - EHANGU MENTRAU PRESENNOL
Caniatáu cynigion i ehangu/ymestyn/dwysau mentrau diwydiannol a busnesau presennol neu fentrau eraill os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gydag addasrwydd y defnydd presennol o safbwynt yr ardal o'i amgylch a defnyddiau cyfagos a'i berthynas a'r gwaith presennol.

POLISI D13 - ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU
Caniatau cynigion i ddatblygu atyniadau a chyfleusterau newydd ar gyfer ymwelwyr, neu i wella safon cyfleusterau presennol os ydynt o fewn ffin ddatblygu neu ar safleoedd o fathau penodol eraill os nad oes cyfleoedd addas o fewn ffin ddatblygu. Bydd yn ofynnol i bob cynnig gydymffurfio â'r meini prawf sy'n ymwneud gyda

datblygu marchnadoedd 'niche'; neu, cefnogi datblygu thema gydnabyddedig Strategaeth Dwristiaeth Gwynedd a, dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad arfaethedig.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8 (2016).
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009).
NCT 11: Sŵn (1997).
NCT 12: Dylunio (2014).
NCT 13: Twristiaeth (1997).
NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013).
NCT 23: Datblygu Economaidd (2014).

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C11/1113/16/LL Cais llawn i greu dau gwrs gwifren *zip*, maes parcio ag adeilad gweinyddol dros dro - caniatáu 16.04.12

C13/0727/16/LL Cais ôl-weithredol i gadw adeilad un llawr parhaol (diwygiad i ganiatâd blaenorol C11/1113/16/LL) - caniatáu 19.09.13

C13/0755/16/LL Estyniad i adeilad presennol i gynnwys swyddfa, ystafell gweithwyr, storfa ag adnoddau arlwyo ynghyd a gosod tanc septig, cadw cynhwysydd a chreu ardal allanol gwylio (rhannol ôl-weithredol) - caniatáu 21.11.13

C14/0375/16/LL Cais i ddiwygio amodau 5 a 6 ar ganiatâd C13/0755/16/LL er mwyn cadw uned arlwyo a chynhwysydd am gyfnod estynedig i'r hyn a ganiatawyd - caniatáu 27.06.14

C14/0420/16/LL Newid defnydd tir er mwyn creu maes parcio ychwanegol a chreu ffordd fynediad - caniatáu 15.09.14.

C15/0276/16/LL - Cais llawn i godi adeilad tri llawr newydd ar gyfer canolfan cwmni *Zip World* i gynnwys derbynfa/adnoddau cysylltiol gan gynnwys caffi a bar ynghyd a gwaredu adeiladau dros dro presennol, codi cwrs gwifren *zip* newydd, creu maes parcio, codi llwybr troed coedyn cysylltiol a'r maes parcio presennol i ymwelwyr a gosod gwaith trin carthion - caniatáu 30.09.15.

C15/1208/16/LL - Cais i ddiwygio amod 2 o ganiatâd C15/0276/16/LL er mwyn ail leoli'r adeilad a man glanio'r *zip* bychan a newidiadau i'r trefniadau parcio - caniatáu 13/01/16

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim gwrthwynebiad |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad - tybir na fuasai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd, neu ffordd arfaethedig. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim gwrthwynebiad a chyngor safonol |

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn |
| Swyddog Mwynau a Gwastraff: | Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond gyda sylwadau yn ymwneud a sicrhau nad yw’r cais cyfredol hwn yn sterileiddio’r gronfa wrth gefn o wastraff llechi a ganiatawyd o dan gais rhif C04A/0519/16/MW; dylai unrhyw ganiatâd ar gyfer addasu’r cyfleuster ac i osod bwnd 5m o uchder gynnwys amod ar gyfer ymgymryd â gwaith archeolegol; a dylai’r ymgeisydd dangos ar gynllun yr union leoliad ble bwriedir ffynhonellu gwastraff llechi er mwyn creu’r bwnd. |
| Gwarchod y Cyhoedd: Gwasanaeth | Heb dderbyn ymateb wrth baratoi’r adroddiad hwn. Noder fod bod y Gwasanaeth wedi bod mewn trafodaethau gyda’r ymgeisydd ynglŷn â rhai elfennau o’r bwriad sy’n ymwneud a sŵn, oriau gweithio a manylion codi bwnd. |

Bioamrywiaeth:

**Cynefinoedd**
Yn fodlon gyda’r arolygon cynefin a’r argymhellion wedi ei gynnwys yn yr adroddiad
Hoffwn gynnwys amod fod y mesurau wedi eu manylu yn rhan 2.3 yn cael eu dilyn yn union - yn benodol:

1. Ardal Gwaith y *Little Zipper* i’w gael ei farcio, a’r pridd i’w gasglu, storio a’i ailddefnyddio wedi i’r holl waith orffen ar y safle
2. Plannu plygiau megis grug o amgylch ardal cychwyn y *Big Zipper*.
3. Rhaglen gynhwysfawr o dirweddu a phlannu ar ddiwedd y gwaith - manylion i’w gyrru i’r awdurdod am gymeradwyaeth
4. *Rhododendron Ponticum* sydd yn yr ardaloedd gwaith i’w gael ei glirio o’r safle ac unrhyw aildyfant mewn blynyddoedd canlynol hefyd i’w drin

**Rhywogaethau wedi eu gwarchod**
Rwyf yn cytuno a chasgliad yr adroddiad na fydd effaith negyddol ar unrhyw rywogaethau wedi eu gwarchod gan gynnwys ystlumod.

**Creaduriaid di-asgwrn cefn**
Rwyf yn cytuno a chasgliad yr adroddiad na fydd effaith negyddol ar y corynod prin ar y safle.

**Ymlusgiaid**
Cytuno a chasgliad yr adroddiad a’r mesurau lliniaru wedi eu hargymell. Hoffwn gynnwys amod yn unol â rhan 3.3 *Reptiles* fod y safle lle mae’r pridd i’w storio yn cael ei grafu o un ochr i’r llall a gydag ecolegwyr cymwysedig yn bresennol i oruchwylio.

**Adar**
Cytuno a chanlyniad yr adroddiad na fydd Brain Coesgoch yn cael eu heffeithio - hyn yn sgil cyngor gan Adrienne Stratford, arbenigwr Brain Coesgoch. Hoffwn gynnwys amod

fod unrhyw ardaloedd o dyfiant gyda'r potensial i adar nythu ynddo yn cael ei glirio y tu allan i'r tymor nythu (Mawrth i Awst).

Parc Cenedlaethol Eryri: Dim gwrthwynebiad

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysu eisoes wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Sŵn - effaith negyddol o'r gweirynnau presennol a'r sŵn o sgrechian. Byddai mwy o weirynnau yn gwaethygu hyn.
- Colli preifatrwydd.
- Effaith ar fwynderau gweledol a'r Parc Cenedlaethol
- Llygredd golau.
- Effaith ar fywyd gwyllt.
- Croesawu'r bwnd acwstig ond yn cwestiynu ffigyrau'r asesiad sŵn ac os bydd y bwnd yn effeithiol.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Mae'r fenter *Zip World* eisoes wedi ei sefydlu o fewn y chwarel gan gynnwys dau gwrs gwifren *zip* ynghyd ac adeiladau cysylltiol parhaol ynghyd a fan bwyd, toiledau portacabin a 4 cynhwysydd/portacabin ychwanegol dros dro, ardal gwylio ac ardal parcio. Mae'r bwriad ar gyfer codi adeilad tri llawr newydd ar gyfer canolfan cwmni *Zip World* eisoes wedi ei ganiatáu gan y Pwyllgor Cynllunio trwy geisiadau rhif C15/0276/16/LL a C15/1208/16/LL. Rhaid, felly, asesu os yw'r effaith o leoli gwifrau *zip* ychwanegol yn dderbyniol.

5.2 Mae Polisi D8 o'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) yn ymwneud gydag ehangu mentrau presennol, ac mae'n caniatáu cynigion i ehangu/ymestyn/dwysau mentrau diwydiannol a busnesau presennol neu fentrau eraill os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf y polisi. Mae'r bwriad yn golygu gosod 2 gwifren *zip* ychwanegol ger y *zip* mawr a 2 ychwanegol ger y *zip* bychan. Mae'r bwriad yn ffinio'r datblygiad presennol ac yn ategol i'r defnydd presennol y safle ac felly yn cydymffurfio gydag anghenion Polisi D8. Mae'r polisi hefyd yn gofyn i sicrhau na fydd graddfa'r datblygiad presennol ynghyd a'r cynnig yn achosi difrod arwyddocaol i fwynderau, fwynderau gweledol, yr amgylchedd a'r rhwydwaith ffyrdd lleol ond trafodir y materion yma pellach ymlaen yn yr adroddiad.

5.3 Mae Polisi D13 o'r CDU yn ymwneud gydag atyniadau a chyfleusterau i ymwelwyr, ac mae'n caniatáu cynigion o'r fath ar sail meini prawf penodol. Mae'r polisi yn delio gyda datblygiadau o'r newydd a hefyd i wella cyfleusterau presennol fel sy'n cael ei gynnig yn y bwriad gerbron. O asesu'r bwriad yng nghyd-destun y polisi hwn ystyrir fod y bwriad yn parhau i gydymffurfio gyda'r holl ofynion ac felly fod yr egwyddor o'r datblygiad yn dderbyniol.

5.4 Ystyrir, felly, mewn egwyddor, fod y bwriad yn cydymffurfio a Pholisi D8 a D13 o'r CDU.

**Mwynderau Gweledol.**

5.5 Mae Polisi B14, B22, B25, D8 a D13 o'r CDU yn berthnasol ac ymwneud â hyrwyddo dyluniad adeiladu, diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol, gosodiad y Parc Cenedlaethol ynghyd a gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

5.6 Mae'r bwriad yn golygu gosod 4 wifren *zip* ychwanegol, gosod cyfarpar cysylltiedig (fframiau a.y.y.b.) a llwyfannau i weddu'r presennol. Er mwyn codi bwnd acwstig 4.5m, mae'r bwriad yn golygu ail leoli llwyfan glanio'r *zip* mawr ychydig i'r gorllewin ynghyd a'r cysgodfan ymwelwyr presennol. Rhaid cydnabod bod y gwifrau yn weladwy o bellter, yn enwedig tuag at Braichmelyn ond ni ystyrir bydd effaith weledol y bwriad yn sylweddol fwy na'r datblygiad presennol nac yn cael effaith weledol arwyddocaol oherwydd maint trwch y gwifrau. Er cydnabyddir bydd pedwar person yn mynd lawr y *zip* mawr yr un adeg yn lle 2 yn fwy gweladwy, ni ystyrir bydd hyn yn ei hun yn niweidiol i fwynderau gweledol na gosodiad y Parc Cenedlaethol. Fe fydd y bwnd acwstig yn lleihau effaith gweledol presennol llwyfan glanio'r *zip* mawr o gyfeiriad Braichmelyn a'r cyfarpar ychwanegol i'r gwifrau *zip* newydd. Fe fydd y bwnd yn cael ei adeiladu allan o wastraff llechi o'r safle presennol ac ystyrir fod y defnydd o lechi yn addas ac yn cydweddu a chymeriad diwydiannol yr ardal.

5.7 Ystyrir bydd yr adeilad cysgodi newydd wrth fan cychwyn y *zip* mawr yn dderbyniol ar sail ei leoliad, ac mae'n cydweddu â'i gyffiniau o ran maint, dyluniad a graddfa. Mae bwriad gorffen yr adeilad gyda chladin pren a charreg ac ystyrir fod y deunyddiau yma yn addas ac yn cydweddu a'i gefndir. Ystyrir y gwaith i ail leoli llwybrau of fewn y safle yn dderbyniol ac na fydd yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd ehangach.

5.8 Ni ystyrir byddai'r bwriad yn ei gyfanrwydd yn niweidiol i fwynderau gweledol a ystyrir, felly, fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisïau B14, B22, B25, D8 a D13 o'r CDU.

**Mwynderau Cyffredinol a Phreswyl.**

5.9 Mae Polisi B23 yn pwysleisio'r rheidrwydd i asesu effaith y bwriad ar fwynderau trigolion cyfagos. Datgan y polisi y dylid gwrthod cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol. Yn yr un modd mae Polisi B33 yn gofyn gwrthod cynigion 'fydd yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd iechyd, diogelwch neu amwynderau dynol...oherwydd lefelau uwch o lygredd...sŵn...os na ellir eu rheoli'n ddigonol trwy amodau cynllunio...'

5.10 Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r bwriad ar sail colli preifatrwydd. Er bod y gwifrau *zip* yn weladwy o dai preswyl, mae'r safle wedi ei leoli dros 200m i ffwrdd o'r eiddo preswyl agosaf (Fflat Maes Carafanau Ogwen Bank sydd ar lannau'r Afon Ogwen ac sydd wedi amgylchu yn dda gan goed) ac mae tai eraill yn bellach i ffwrdd na hynny. Oherwydd y pellter i ffwrdd o dai, ni ystyrir bydd y datblygiad yn achosi gor-edrych na cholli preifatrwydd afresymol. Er hynny, fe fydd y bwnd acwstig yn sgrinio'r man glanio'r *zip* mawr yn dda ac yn lleihau unrhyw effaith presennol neu deimlad o gor-edrych o'r fan yna.

5.11 Derbyniwyd asesiad sŵn gan ymgynghorydd arbenigol fel rhan o'r cais ac mae'r bwriad hefyd yn golygu codi bwnd acwstig er mwyn lleihau effaith gweledol a'r

effaith sŵn wrth fan glanio'r *zip* mawr. Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad i'r bwriad ar sail effaith sŵn y datblygiad presennol a'r ffaith bydd y bwriad yma yn cynyddu'r effaith. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pryder hwn mae'r ymgeisydd wedi cytuno i gyfyngu oriau agor y fenter rhwng 08:00 i 20:00 yn ddyddiol a gellir sicrhau hyn drwy gynnwys amod priodol pe caniateir y cais. Bydd hyn wedyn yn sicrhau lleihad yn yr oriau bydd y cyfleuster ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr haf - mae'r cyfleuster ar hyn o bryd yn agor tan 21:00 yr hwyr (er nad oes unrhyw gyfyngiad cynllunio ar oriau agor y cyfleuster yn bresennol). Nid yw'r ymgeisydd yn gweithredu'r oriau yma yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn yn enwedig yn ystod tymor y gaeaf. Dywed yr ymgeisydd drwy gynyddu'r nifer o wifrau ar y safle bydd yr angen i ddefnyddio'r cyfleuster yn cael ei gyfarfod yn ystod y dydd a bydd hyn wedyn yn lleihau'r pwysau ar ddefnyddio'r cyfleuster yn ystod cyfnodau yn y diwrnod sydd yn fwy sensitif i sŵn, sef, yn y bore ac yn hwyr y prynhawn. Rhaid cofio hefyd bydd caniatáu'r cais hwn yn fodd i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol reoleiddio amseroedd gweithredu'r cyfleuster. Ystyrir, felly, bod cyfyngu oriau agor y cyfleuster i'r cyfnod 08:00 i 20:00 yn dderbyniol ac yn rhesymol gan ystyried lleoliad y bwriad ynghyd a'r mesuriadau lliniaru sŵn sydd yn rhan annatod o'r cais cyfredol hwn.

5.12 Ystyrir, felly, fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisïau B23, B33, D8 a D13 o'r CDU.

**Materion Trafnidiaeth a Mynediad**

5.13 Mae'r bwriad yn golygu bydd dwbl y bobol yn gallu mynd ar y gwifrau *zip* ar un waith ac o ganlyniad fe fydd defnydd y safle yn dwysau. Er hynny mae'r ddarpariaeth parcio o fewn y safle yn ddigonol ac mae'r cynllun i godi adeilad newydd sydd eisoes wedi cael caniatâd hefyd yn darparu maes parcio newydd yn cynnwys mannau parcio a throi i fysys a mannau parcio hygyrch. Mae'r bwriad wedi ei leoli o fewn cyffiniau'r chwarel, ac mae'r fenter yma'n defnyddio'r un fynedfa a thraffig y chwarel, ac yna mae'r traffig chwarel/*Zip World* yn cael ei wahanu ar ffyrdd gwahanol drwy ddefnydd o arwyddion. Ni ystyrir bydd y bwriad yn debygol o achosi cynnydd annerbyniol yn y nifer o gerbydau fydd yn teithio i'r safle o ganlyniad i'r cais yma, ac mae'r Uned Drafnidiaeth wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r datblygiad. Ystyrir, felly, fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion Polisïau CH33 a CH36 uchod.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.14 Mae Polisi B20 o'r CDU yn diogelu rhywogaethau a'u cynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac mae'n gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle. Derbyniwyd adroddiad ecolegol ar gyfer y bwriad. Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru nac Uned Bioamrywiaeth y Cyngor gwrthwynebiad i'r cais yn ddarostyngedig i amodau. Er cydnabyddir y gwrthwynebiadau i'r cais, ystyrir fod y bwriad, gydag amodau yn unol â gofynion Polisi B20 o'r CDU.

**Materion Ieithyddol a Chymunedol**

5.15 Mae Polisi A2 o'r CDU yn ymwneud a gwarchod gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion. Gan fod y bwriad yn golygu ehangu menter bresennol o faint sylweddol, dderbyniwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol. Mae'r bwriad yn golygu bydd y safle yn parhau i fod yn atyniad i dwristiaeth ac mae'n cynnig hwb i'r

economi leol, ynghyd a chynnig ffordd i gysylltu gyda threftadaeth economaidd yr ardal yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn lleol. Nid oedd gan yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd wrthwynebiad i'r bwriad. Ystyrir fod y bwriad yn unol gyda gofynion Polisi A2 uchod.

**6. Casgliadau:**

6.1 Wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, yr holl bolisïau a materion cynllunio perthnasol ni chredir y byddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar fwynderau preswyl a gweledol yr ardal, ddiogelwch ffyrdd, bioamrywiaeth na gosodiad y Parc Cenedlaethol, ac yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ni chredir fod y bwriad yn groes i'r polisïau perthnasol hyn.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau ffafriol gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ac i amodau perthnasol yn ymwneud â :

1. Amser
2. Unol â'r cynlluniau
3. Deunyddiau
4. Amodau bioamrywiaeth
5. Amod cyfyngu amser agor rhwng yr oriau 08:00 a 20:00.
6. Cynllun yn dangos lleoliad ble bwriedir ffynonhellu gwastraff llechi ar gyfer creu y bwnd i'w gyflwyno a'i gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i unrhyw waith ddechrau ar y datblygiad

Nodiadau: Archeoleg a materion mwynau